**Lesley Griffiths AC / AM**
**Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi**
**Minister for Communities and Tackling Poverty**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA PLG 0946 16

Christine Chapman AM
Chair
Communities, Equality and Local Government Committee
National Assembly for Wales

SeneddCELG@assembly.wales;

8 March 2016

Dear Christine

Thank you for your letter of 22 February following my attendance on 27 January to give evidence to the Communities, Equality and Local Government Committee in relation to the refresh of the Welsh Government's Financial Inclusion Strategy for 2016. I will respond to each of the points you raised in turn.

At the Committee meeting, you made me aware of your concerns the Strategy does not include a Delivery Plan. You highlighted the importance of setting out clear measureable actions, with roles and responsibilities for who will be take forward each piece of work. I would like to assure the Committee, a Delivery Plan will be developed, in conjunction with stakeholders and taking into account suggestions from the consultation responses, with work starting once the Strategy is published. The Delivery Plan will include consideration of future independent evaluation, developed with colleagues in the Welsh Government's Knowledge and Analytical Services Team. Alongside any future evaluation, it is important to show progress against each of the actions and an Annual Report is something consideration will also be given to as part of this process.

The membership of the Financial Inclusion Development Group, which was established to comment on the development of the Strategy, will be reviewed once the Strategy has been launched. This is to ensure the best placed individuals / organisations are available for the next steps, which include developing the delivery plan and monitoring the implementation of the Financial Inclusion Strategy.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
Correspondence.Lesley.Griffiths@wales.gsi.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Significant funding has been made available for Credit Unions, with the current project funding being tapered since April 2014 and ceasing in March 2017. This gradual withdrawal of Welsh Government funding has been a catalyst for Credit Unions to focus on their sustainability, which is important for their future. To assist with this transition towards future sustainability, Welsh Government is working with the Sector to increase the membership base of Credit Unions. I will continue to promote Credit Unions, particularly to the public sector workforce and across Education, Health and Local Government portfolios, to encourage membership. We also support mergers of Credit Unions where these are in the interests of Credit Union members. However, any merger will be looked at on a case by case basis. The Welsh Credit Union movement has produced the first Credit Union Strategy for Wales, launched on 2 March. This is significant as it has been developed by the Credit Unions themselves with the primary aim to set a course for credit union development in the coming years.

The Committee highlighted the importance of making financial information accessible to everyone not just those with internet access. I acknowledge the importance of this aspect and it will be taken forward as part of the Delivery Plan. Access to multi channel information and advice will be a priority for incorporation in both the Financial Inclusion Delivery Plan and the Information & Advice Strategy which the National Advice Network will bring forward later this year.

The Welsh Government has a strong track-record of working with partners to promote financial inclusion and intends to continue to work collaboratively with partner organisations in Wales and at a UK level to deliver against our proposed commitments. We will support Money Advice Service Wales as they co-ordinate taking forward proposed actions in the Financial Capability Strategy for Wales which contribute to the commitments of the Financial Inclusion Strategy.

I understand the Minister for Education and Skills has sent a separate response to your letter concerning the Estyn Remit on 1 March.

Regards
Lesley

**Lesley Griffiths AC / AM**
Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi
Minister for Communities and Tackling Poverty

**Lesley Griffiths AC / AM**
**Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi**
**Minister for Communities and Tackling Poverty**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA PLG 0946 16

Christine Chapman AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

SeneddCELG@cynulliad.cymru

8 Mawrth 2016

Annwyl Christine

Diolch am eich llythyr dyddiedig 22 Chwefror ynghylch y dystiolaeth a roddais i'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar 27 Ionawr mewn perthynas ag adnewyddu Strategaeth Cynhwysiant Ariannol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016. Byddaf yn ymateb i bob un o'ch pwyntiau yn eu tro.

Yn y cyfarfod Pwyllgor, fe godoch chi bryderon nad yw'r Strategaeth yn cynnwys Cynllun Cyflawni. Aethoch ymlaen i bwysleisio pwysigrwydd amlinellu camau mesuradwy clir, gyda swyddogaethau a chyfrifoldebau ar gyfer y rhai a fydd yn cyflawni pob darn o waith. Hoffwn sicrhau'r Pwyllgor y bydd Cynllun Cyflawni yn cael ei ddatblygu mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid a fydd yn ystyried awgrymiadau a gafwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad, gyda'r gwaith yn dechrau ar ôl i'r Strategaeth gael ei chyhoeddi. Bydd y Cynllun Cyflawni yn cynnwys ystyriaeth o werthusiad annibynnol yn y dyfodol a ddatblygir gyda chydweithwyr yn Nhîm Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru. Ochr yn ochr ag unrhyw werthusiad yn y dyfodol, mae'n bwysig dangos cynnydd yn erbyn pob un o'r camau gweithredu, a rhoddir ystyriaeth i Adroddiad Blynyddol fel rhan o'r broses hon hefyd.

Bydd aelodaeth y Grŵp Datblygu Cynhwysiant Ariannol, a sefydlwyd i wneud sylwadau ar ddatblygiad y Strategaeth, yn cael ei hadolygu ar ôl i'r Strategaeth gan ei lansio. Y nod fydd sicrhau bod yr unigolion / sefydliadau sydd yn y sefyllfa orau ar gael ar gyfer y camau nesaf, sy'n cynnwys datblygu'r cynllun cyflawni a monitro'r gwaith o weithredu'r Strategaeth Cynhwysiant Ariannol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
Correspondence.Lesley.Griffiths@wales.gsi.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Sicrhawyd bod cyllid sylweddol ar gael ar gyfer Undebau Credyd, gyda chyllid y prosiect presennol wedi bod yn cael ei leihau'n raddol ers mis Ebrill 2014 ac yn dod i ben ym mis Mawrth 2017. Mae'r gostyngiad graddol hwn yng nghyllid Llywodraeth Cymru wedi annog Undebau Credyd i ganolbwyntio ar eu cynaliadwyedd, sy'n bwysig i'w dyfodol. I helpu gyda'r pontio hwn tuag at gynaliadwyedd, mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Sector i gynyddu aelodaeth Undebau Credyd. Byddaf yn parhau i hyrwyddo Undebau Credyd, yn enwedig i weithlu'r sector cyhoeddus ac ar draws portffolios Addysg, Iechyd a Llywodraeth Leol, i annog aelodaeth. Rydym hefyd yn cefnogi uno Undebau Credyd pe bai hynny o fudd i aelodau'r Undebau Credyd hynny. Fodd bynnag, bydd unrhyw uno yn cael ei ystyried fesul achos. Mae mudiad Undebau Credyd Cymru wedi cynhyrchu Strategaeth Undebau Credyd gyntaf Cymru, a lansiwyd ar 2 Mawrth. Mae hyn yn arwyddocaol gan fod y Strategaeth wedi'i datblygu gan yr Undebau Credyd eu hunain gyda'r nod o weithio tuag at ddatblygu'r undebau credyd dros y blynyddoedd nesaf.

Pwysleisiodd y Pwyllgor bwysigrwydd sicrhau bod gwybodaeth ariannol ar gael i bawb, yn hytrach na'r rhai sydd â mynediad i'r rhyngrwyd yn unig. Rwy'n cydnabod pwysigrwydd yr agwedd hon, a bydd yn cael ei datblygu fel rhan o'r Cynllun Cyflawni. Bydd mynediad at wybodaeth a chyngor aml-gyfrwng yn flaenoriaeth yn y Cynllun Cyflawni Cynhwysiant Ariannol a'r Strategaeth Gwybodaeth a Chyngor y bydd y Rhwydwaith Cyngor Cenedlaethol yn ei chyflwyno yn ddiweddarach eleni.

Mae gan Lywodraeth Cymru brofiad o weithio gyda phartneriaid i hyrwyddo cynhwysiant ariannol, ac mae'n bwriadu parhau i weithio gyda sefydliadau partner yng Nghymru ac ar lefel y DU i gyflawni yn erbyn ein hymrwymiadau arfaethedig. Byddwn yn cefnogi Gwasanaeth Cynghori Ariannol Cymru wrth iddyn nhw gydgysylltu'r gwaith o gymryd y camau arfaethedig yn y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Gallu Ariannol sy'n cyfrannu at ymrwymiadau'r Strategaeth Cynhwysiant Ariannol.

Rwy'n deall bod y Gweinidog Addysg a Sgiliau wedi anfon ymateb ar wahân i'ch llythyr ynghylch Cylch Gwaith Estyn ar 1 Mawrth.

Yn gywir

Lesley

**Lesley Griffiths AC / AM**
Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi
Minister for Communities and Tackling Poverty